# Cyngor Cymuned Llanberis

***Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar y 12fed Gorffennaf 2023 am 19.00 yn Y Ganolfan, Llanberis.***

1. **Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd Cyngorwyr i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Nodwyd gan y Cadeirydd mai hwn yw cyfarfod cyntaf y Clarc newydd sef Barry Davies a nodwyd na fyddai Mr Dei Tomos yn bresennol.

Nodwyd gan y Cadeirydd ei bod, ar ran y Cyngor Cymuned, yn anfon cydymdeimlad y Cyngor Cymuned at holl deulu y diweddar Gwenda Roberts, Glanrafon, Nant Peris, ac hefyd yn anfon cydymdeimlad at holl deulu y diweddar Gareth Fon, Prifathro Ysgol Dolbadarn. Bu i'r Cyngor hefyd gydymdeilmo gyda'r Cyng. Iola Owen ar golli ei brawd yn ddiweddar.

Mawr bydd ein colled yn y gymuned yn dilyn y newyddion trist.

**2. Holi cyhoeddus**

Rhoi cyfle i Aelod(au) o'r cyhoedd sydd yn bresennol holi'r Cyngor ar faterion priodol. Nid oedd yna aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**3. Cofnodi Presennoldeb**

***Ward Padarn:*** Gwilym Evans (Is Gadeirydd y Cyngor Cymuned), Iwan Harding, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Nia Jones, Kim Jones, Louise Price, Helen Sharp. Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Trystan Thomas

***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard (Cadeirydd Y Cyngor Cymuned)

***Ymddiheuriadau:*** Dei Tomos (Clerc.)

Hefyd yn bresennol: Barry Davies (Clarc Dynodedig.)

**4. Datgan Buddiant:**

Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau yn yr agenda.

**5. Cadarnhau Cofnodion:**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fercher y 14eg Fehefin 2023 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd.

***Cynnigwyd y cynnig gan Cyng. Heather Jones. Eilwyd y cynnig gan Cyng. Rhys ap Gwilym.***

**6. Materion yn codi o'r cofnodion:**

- ***Pryderon Defnydd Llyn Padarn*** – Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi ymateb i ohebiaeth ble roedd y Cyngor Cymuned yn datgan pryder ynglyn a gor ddefnydd o'r llyn drwy gynydd sylweddol gan weithgareddau hamdden. Nid oedd Cyngor

Gwynedd yn gefnogol i godi ffi ar y rhai a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dwr (ag eithrio cwmniiau masnachol.)

Roedd ysbwriel, erydiad, cam ddefnydd barbiciw ac yn y blaen yn cyfrannu at ddirywiad yn ansawdd y llyn, lleihad mewn ansawdd cyfarpar picnic ac erydiad glannau cyfagos.

Datganwyd siomedigaeth gan y Cyngor Cymuned i ymateb Cyngor Gwynedd ac ni welai'r Cynghorwyr pam na fyddai bosib codi tal ar weithgareddau dwr gyda unrhyw incwm ychwanegol yn cael ei neilltuo er cyfrannu at gynyddu nifer wardeiniaid ym Mharc Padarn.

Trafodwyd cynyddu ffi parcio er sicrhau incwm digonol ar gyfer gwarchod yr adnodd pwysig hwn. Holwyd hefyd a fyddai sustem 'hawlen' yn gwella'r sefyllfa.

***Gweithred - gofynnwyd bod y Clarc yn gohebu gyda Chyngor Gwynedd gan ddatgan siom y Cyngor Cymuned i'r ymateb a fu wedi ei dderbyn ac yn gofyn iddynt gynnal ymchwil er edrych ar beth sydd yn digwydd ar lynoedd poblogaidd eraill fel Windermere. (gweithreduwyd 20/07/2023)***

**7. Rheolau Sefydlog – Adolygiad Rheolau (Model):**

Cynnigwyd gan Gynghorydd na fyddai yn briodol trafod y Rheolau Sefydlog yn y cyfarfod hwn gan nad yw'r Cynghorwyr wedi derbyn copi o'r Rheolau Sefydlog cyfredol.

Cadarnhawyd bod holl aelodau o'r Cyngor Cymuned wedi derbyn copi o'r Rheolau Sefydlog drafft (model) ar y 12fed Fehefin 2023 ac ei bod yn angenrheidiol bod y Rheolau Sefydlog arfaethedig (model) yn cael eu trafod, ei adolygu ac ei mabwysiadu fel yn berthnasol.

Nodwyd gan y Clarc bod y Rheolau Sefydlog cyfredol eisoes ar safle we'r Cyngor Cymuned a bod y rhain eisoes wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor Cymuned ym mis Ebrill 2020.

Dogfennau | Cyngor Cymuned Llanberis (cyngorllanberis.cymru)
Rheolau Sefydlog Llanberis (cyngorllanberis.cymru)

Cynnigwyd bod trafodaeth ar yr eitem Rheolau Sefydlog yn cael ei ohirio y tro hwn ac yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod ym mis Medi 2023.

Cytunwyd y byddai'r Cyng.Llinos Haf Pritchard a'r Cyng. Heather Jones yn cyfarfod yn y cyfamser a hyn ar eu cyfle cyntaf er trafod y Rheolau Sefydlog drafft (model) gan gyflwyno cynnig i'r Cyngor Cymuned o'r addasiadau arfaethedig ym mis Medi.

**8. Ffyrdd a Phalmentydd:**

a. ***Lefel Swn*** - Nodwyd cyn bryder ynglyn a lefel swn a achoswyd gan gerddwyr sydd yn tramwyo ar hyd y ffordd yn ardal Stryd y Faenol / Stryd Fictoria yn enwedig yn hwyr y nos nac yn ystod oriau man y bore. Nodwyd bod rheolaeth dda wedi bod ar gystadleuwyr yn ystod digwyddiad 24 awr diweddar pan bu i drefnwyr sicrhau bod 'marshal' ar y safle drwy gydol y nos yn monitro'r sefyllfa. Nodwyd bod lefelau swn yn ystod digwyddiadau 'Tri Pigyn' yn broblemus a bod lefel swn drwy ddefnydd o lwybr Yr Wyddfa 24/7 wedi cynyddu nifer achosion ble mae trigolion lleol yn cael ei aflonyddu yn hwyr yn y nos. Nodwyd er fod arwyddion 'Distawrwydd' ar y safle nid oes fawr neb yn cymryd sylw o'r arwyddion. Cynnigwyd bod trefnwyr digwyddiadau yn cael ei gorfodi i fonitro a rheoli lefel swn os yw y digwyddiad yn cael ei gynnal

hwyr yn y nos a bod y gofyn hwn yn cael ei gynnwys oddi fewn hawlen digwyddiadau.

b. ***Palmentydd*** – Nodwyd siom enfawr i ymateb a roddwyd gan Cyngor Gwynedd i bryderon sydd wedi ei nodi gan y Cyngor Cymuned am gyflwr difrifol palmentydd yn y gymuned. Roedd y Cyngor Cymuned wedi codi pryderon ers dros flwyddyn ac nid oedd fawr ddim wedi ei wneud i wella cyflwr palmentydd y pentref. Roedd pryder enfawr ynglyn a chyflwr rhai palmentydd ble roedd yn amhosib i Gadair Olwyn ei defnyddio.

***Gweithred - gofynnwyd bod y Clarc yn gohebu gyda Chyngor Gwynedd gan ddatgan siom y Cyngor Cymuned i'r ymateb a fu wedi ei dderbyn ac yn gofyn iddynt gynnal ymchwil pellach i gyflwr palmentydd y pentref a gweithredu fel mater brys i gynnal a chadw palmentydd y pentref. (gweithredwyd 20/07/2023)***

c. ***Cerbydau Contractwyr*** – Nodwyd pryder fod cerbydau a loriiau contractwyr yn rhwystro defnydd o ardal croesi sydd wedi ei lleoli mewn rhanau penodol ar balmentydd yn ardal Dol Elidir.

***Gweithred – bydd y Cyng. Kim Jones yn dod a'r mater at sylw'r cwmni.***

d. ***Trefniant Parthau 20 Milltir yr Awr*** – Bydd cyflymder uchaf drwy barthau 30 MyA presennol yn lleihau i 20 MyA ym mis Medi 2023. Ar y 'ffordd Osgoi' bydd y parth yn gostwng i 20 MyA ger Y Ganolfan ac bydd y parth 20 MyA yn ymestyn hyd at gylchfan Gwesty Fictoria. O'r cylchfan ymlaen, bydd y parth 30 MyA yn parhau drwy Pentrecastell ar hyd at derfyn y parth presennol at gyfeiriad Nantperis.

Yn ardal Nantperis, bydd y parth 20 MyA yn cychwyn nepell o'r Weirglodd Ddu ac yn ymestyn hyd at fynediad i faes parcio Cludo a Teithio ble bydd cyflymder uchaf yn dychwelyd i 30 MyA hyd at waelod Bwlch Llanberis.

Cynllun 20MYA - 20MPH Project (arcgis.com)

Nodwyd anfodlonrwydd gan Gynghorwyr ar y trefniadau arfaethedig a bod angen addasu ac felly ymestyn parth 20 MyA yn ardal Llanberis ac hefyd yn ardal Nantperis.

***Gweithred - gofynnwyd bod y Clarc yn gohebu gyda Chyngor Gwynedd yn gofyn bod Cyngor Gwynedd yn addasu'r parthau cyflymder uchaf 20 MyA fel a ganlyn:-***

***Llanberis – o gyfeiriad Llanberis, ymestyn y parth 20 MyA drwy Pentrecastell at gyfeiriad Nantperis hyd at derfyn y parth 30 MyA presennol.***

***Cynigwyd y cynig gan y Cyng. Rhys ap Gwilym ac fe eilwyd y cynnig gan y Cyng. Iwan Harding.***

***Nantperis – o gyfeiriad Llanberis, ymestyn y parth 20 MyA at gyfeiriad Bwlch Llanberis hyd at Pont Gwastadnant.***

***Cynnigwyd y cynnig gan y Cyng. Iola Owen ac fe eilwyd y cynnig gan y Cyng. Trystan Tomos. (gweithredu 20/07/2023)***

**9. Llwybrau Cyhoeddus**

Dim i'w adrodd a dim materion y codi.

**10. Y Fynwent**

Datgan diddordeb gan y Cyng. Llinos Haf Prithcard ac ni fu i'r Cynghorydd gymryd rhan yn y drafodaeth.

Cafwyd cyflwyniad byr gan y Cyng. Iola Owen ar ddatblygiad pellach ynglyn ag adnabod tir a fyddai efallai yn addas ar gyfer ymestyn Y Fynwent gyfredol. Eglurwyd oherwydd sefyllfa ddealladwy bod y sefyllfa bresennol yn golygu na fyddai yn addas i holi perchnogion tir i ofyn a fyddai tir ar gael i'w brynnu.

Cytunwyd nad yw'r tir tu cefn i'r Eglwys yn addas ac fe awgrymwyd nad yw'r tir yn cael ei ystyried ar gyfer mynwent estynedig.

***Gweithred - gofynnwyd bod y Clarc yn cysylltu gyda perchenogion tir (Ty Isaf) wrth ochr y Fynwent bresennol gan ofyn am gyfarfod buan gyda Pwyllgor Y Fynwent er adnabod os bydd bosib prynnu tir ar gyfer ymestyn Y Fynwent. (gweithredu 20/08/2023)***

**11. Goleuadau Gwyl Y Nadolig**

Roedd y Cyngor yn hollol gytun bod angen parhau i wella a datblygu'r goleuadau Nadolig. Nodwyd bod angen adnabod unigolyn neu gwmni cymwys ac addas a fyddai yn fodlon i'w gosod.

Mae'r holl oleuadau sydd eisoes wedi ei pwrcasu gan y Cyngor Cymuned wedi ei archwilio gan Gynghorydd. Fe roedd nifer o'r goleuadau yn ddiffygiol a nifer gyda pwynt cysylltu gwahanol arnynt fel nad oes posib eu defnyddio yn y dyfodol.

Nodwyd fod pwyntiau gwifren cyswllt/linc goleuadau Nadolig Nantperis yn parhau ar y polion. Roedd holl oleuadau ardal Nantperis hefyd wedi ei archwilio.

Cytunwyd bod yna angen goleuo mwy o bolion golau stryd a cytunwyd dylai'r Cyngor Cymuned weithredu ar hyn.

***Gweithred - bydd Pwyllgor Goleuadau Gwyl Y Nadolig yn cael ei sefydlu. Cytunwyd mai yr Aelodau bydd y Cyng. Emlyn Baylis, Cyng. Louise Price, Cyng. Kim Jones, Cyng. Iola Owen, Cyng. Nia Jones.***

***Bydd y Pwyllgor yn adrodd yn ol i'r Cyngor gyda argymhellion a rhaglen waith ym mis Medi.***

**12. Lefel Swn – Gwersyllfa Nantperis**

Fe fu i gynrychiolwyr Nantperis ddatgan pryder ynglyn a lefel swn a achoswyd gan ddefnyddwyr maes gwersyllfa yn Nantperis. Roedd pryder ynglyn a diffyg parch at drigolion cyfagos. Cyfeirwyd yn benodol at safle gwersyllfa Cae Gwyn. Yn benodol, roedd swn uchel hwyr y nos ac yn ystod oriau man y bore ac mae hyn yn creu cryn bryder i drigolion lleol.

***Gweithred - gofynnwyd bod y Clarc yn cysylltu gyda Ms Mennai Jones, Swyddog Trwyddedu Safleoedd Gwersyll Cyngor Gwynedd yn datgan pryder ynglyn a lefel swn ac yn ymholi ynglyn a statws Trwydded Gwersylla safleoedd y Plwyf.***

***Cynnigwyd y cynig gan y Cyng. Rhys ap Gwilym ac fe eilwyd y cynnig gan y Cyng. Kim Jones. (Gweithredwyd 21/07/2023)***

**13. Gohebiaeth**

a. ***Rhybudd Cau Ffyrdd – Bryn Teg hyd at Rallt Goch.*** Nodwyd y sefyllfa. Dim sylw pellach.

b. ***Cais Claddu Llwch-Cais gan Mrs GR.*** Nodwyd y cais. Dim sylw pellach.

c. ***Llythyr e-bost Cyngor Gwynedd-rhodd Engie - ffilmio Chwarel Dinorwig.*** Cytunwyd byddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon derbyn y rhodd (£25K) ac yn gweinyddu ac yn asesu ceisiadau gan grwpiau a mudiadau lleol ar gyfer arian grant. Gofynwyd bod y Clarc yn cadarnhau penderfyniad y Cyngor Cymuned ac yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

***Cynnigwyd y cais fel a nodwyd yn 13(c) gan y Cyng. Emlyn Baylis. Eilwyd y cais gan y Cyng. Louise Price.***

d. ***Llythyr e-bost Grid Cenedlaethol-Ymweliad Pentir***. Nodwyd y sefyllfa. Gofynwyd bod y Clarc yn ymateb ar ran y Cyngor Cymuned.

e. ***Llythyr gan GwyrddNi*** – tynnu sylw at gyfarfod cyhoeddus ar y 19eg Gorffennaf 2023 yn Y Ganolfan, Llanberis am 18.30. Nodwyd y cais. Dim sylw pellach.

**14. Ceisiadau Cynllunio**

**Cais Rhif NP3/15/102D.** Coed Gwydr, Nantperis, LL55 4UL.
Creu storfa sydd yn rhanol dan ddaear.

WPHAPPDETAIL (snowdonia-npa.gov.uk)

***Dim sylw.***

**15. Materion Ariannol**

***Yn y Banc ar yr 28ain Fehefin 2023***

**Cyfrif Cyfredol**: £48,707.99

**Cyfrif Cadw**: £67.04

***Derbyniwyd rhwng 28 Mai 2023 a 28 Mehefin 2023 - £0.00.***

**a) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**

I. 202826 Eric Baylis - Glanhau Cysgodfannau a Garddio. £80.00
II. 202827 Robat Owen - Torri Gwair Mynwent Peris Sant. £580.00
III. 202828 D Wyn Lewis – x2 Doriad Gwair Y Fynwent a Gwair Parc Bach. £600.00
IV. 202829 Cyngor Gwynedd – Gwagio Biniau'r Fynwent (12 mis.) £412.00
V. 202830 Cyngor Gwynedd – Cyfraniad at Toiledau Llanberis. £5,000,00
VI. 202831 Archwilio Cymru – Ffi Archwiliad 2021/2022 £200.00
VII. Dim Siec Costau Banc - £5.80

Cyfanswm Taliadau **£6,877.80**
***Cynnigwyd bod y manylion yn gywir ac awdurdodwyd y taliadau gan Cyng. Rhys ap Gwilym. Eilwyd y cynnig gan Cyng. Kim Jones.***

**16. Cyrff Allannol:**

a. ***Llywodraethwyr Ysgol Dolbadarn*** – pryder wedi ei godi fod niferoedd o blant iau sydd yn mynychu'r ysgol wedi gostwng yn sylweddol. Pryder ynglyn a nifer isel disgyblion rhai dosbarthiadau ac fod bosib bydd angen uno rhai dosbarthiadau yn y dyfodol.

b. ***Storfa Yr Ysgol*** - Pryder wedi ei ddatgan gan yr Ysgol bod yr ystorfa dan yr ysgol yn orlawn. Gofynwyd am wirfoddolwyr o'r Cyngor Cymuned er cynorthwyo gyda clirio'r ystorfa pan bydd dyddiad ac amser wedi ei gadarnhau gan yr ysgol. Cytunwyd bydd y Cadeirydd, sef y Cyng. Llinos Haf Pritchard yn cysylltu gyda'r Prifathrawes er trafod eu gofynion ymhellach. Cytunodd bydd y Cyng. Rhys ap Gwilym, Cyng. Emlyn Baylis. Cyng. Kevin Jones ac y Clarc, Barry Davies ar gael i gynorthwyo pan bydd dyddiad wedi ei gadarnhau.

c. ***Model Dyffryn Peris – Mynydd Gwefru*** – Nodwyd bod model a fyddai efallai o werth i'r gymuned yn parhau oddi fewn yr adeilad ac mae'r contractwyr sydd yn dymchwel yr adeilad wedi holi os oes defnydd pellach i'r model. Nodwyd gan Gynghorydd bydd bosib ei ail leoli yn yr Eglwys. Bydd y Cyng. Heather Jones yn holi Warden yr Eglwys gan ofyn caniatad lleoli'r model oddi fewn yr Eglwys.

ch) ***Storfa Capel Coch*** – Roedd y Cyng. Emlyn Baylis wedi cylchredeg copi o Brydles Cyfatebol yr adeilad i Gynghorwyr. Nodwyd mai Mudiad Ambiwlans Sant Ioan sydd gyda hawl defnydd dan y Brydles ac felly gyda hawliau defnydd o'r adeilad.

d. ***Materion o bryder i Gynghorwyr*** - Nodwyd pryder ynglyn a nifer achosion gwrthgymdeithasol yn ardal Nantperis. Nodwyd bod yna un unigolyn yn achosi cryn bryder i drigolion lleol. Mae nifer achosion wedi ei adrodd i'r Heddlu. Nodwyd pryder bod rhai achosion wedi lledaenu trosodd i Llanberis a bod hyn yn dilyn ymddygiad gwrthgymdeithasol honedig gan yr unigolyn.

Cynnigwyd bod y Cyngor Cymuned yn cynal cyfarfod gyda'r Heddlu ar ei cyfle cyntaf er ceisio adnabod datrusiad i'r pryder. Bydd y Cyng. Kim Jones yn anfon manylion e-bost yr Heddwas priodol at sylw'r Clarc ar ei cyfle cyntaf.

***Gweithred ar eitem agenda 16(d) - cynnigwyd bod y Cyngor Cymuned yn cyfarfod gyda'r Heddlu. Cynnigwyd gan y Cyng. Gwilym Evans. Eilwyd y cynnig gan y Cyng. Iola Owen.***

***Bydd y Clarc yn gohebu gyda'r Heddlu ar dderbyn enw a cyfeiriad cyswllt fel a nodwyd uchod.***

**17. Dyddiad Cyfarfod Nesaf:**

Noder dyddiad y cyfarfod nesaf ar y **13eg Medi 2023** am 19.00 yn Y Ganolfan, Llanberis.

Daeth y cyfarfod hwn i ben am 20.55.